Cronfa Bensiwn Dyfed

Polisi Tramgwyddau

Mawrth 2025

Cynnwys

Gofynion cyfreithiol 2
I bwy y mae'r gofyniad i riportio yn berthnasol? 2
Penderfyniad i riportio 2
Arwyddocâd sylweddol 3
Achos y tramgwydd 3
Effaith y tramgwydd 3
Yr ymateb i'r tramgwydd 4
Goblygiadau ehangach y tramgwydd 4
Y broses riportio 5
Ar frys a pherthnasol 5
Heb fod ar frys a pherthnasol 6
Amherthnasol 6
Adrodd i'r Pwyllgor Pensiwn a'r Bwrdd Pensiwn 7
Cyflwyno adroddiadau 7
Methu â riportio 8
Diogelu'r rheiny sy'n datgelu camarfer a chyfrinachedd 9
Adolygu'r Polisi Tramgwyddau 9
Gwybodaeth gyswllt 9

Gofynion cyfreithiol

Mae'r Ddeddf Pensiynau 2004 yn nodi'r ddyletswydd gyfreithiol i riportio tramgwyddau. Yn y Côd Ymarfer, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau, rhoddir canllawiau ymarferol mewn perthynas â'r gofyniad cyfreithiol hwn, gan gynnwys yn y meysydd canlynol:

- gweithredu gweithdrefnau digonol i ystyried a chofnodi tramgwyddau
- barnu a oes rhaid riportio tramgwydd
- cyflwyno adroddiad i'r Rheoleiddiwr Pensiynau
- diogelu'r rheiny sy'n datgelu camarfer a chyfrinachedd

Mae'n ofynnol i rai pobl riportio tramgwyddau i'r Rheoleiddiwr lle mae ganddynt achos rhesymol dros gredu:

- na chydymffurfir – neu na chydymffurfiwyd – â dyletswydd gyfreithiol sy'n berthnasol i'r gwaith o weinyddu'r cynllun
- bod yr anallu i gydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr wrth iddo arfer unrhyw un o'i swyddogaethau.

I bwy y mae'r gofyniad i riportio yn berthnasol?

Y bobl y mae'r gofynion riportio yn berthnasol iddynt (y sawl sy'n riportio) yw:

- Rheolwr y cynllun (Cyngor Sir Caerfyrddin)
- Y Bwrdd Pensiwn
- Cyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun
- Ymgynghorwyr proffesiynol (gan gynnwys archwilwyr, actiwariaid, ymgynghorwyr proffesiynol a rheolwyr cronfeydd)

Penderfyniad i riportio

Mae angen gwneud dau benderfyniad allweddol:

- Yn gyntaf, a oes gan y sawl sy'n riportio achos rhesymol dros gredu y cafwyd tramgwydd?
- Os felly, yn ail, a yw'r sawl sy'n riportio yn credu bod y tramgwydd yn debygol o fod o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau?

Mae 'achos rhesymol dros gredu' y cafwyd tramgwydd yn golygu mwy na dim ond amheuaeth na ellir ei phrofi. Dylid cynnal gwiriadau i gadarnhau a gafwyd tramgwydd.

Wrth gadarnhau a oes achos rhesymol dros gredu y cafwyd tramgwydd, nid oes angen i'r sawl sy'n riportio gasglu'r holl dystiolaeth y byddai ei hangen ar y Rheoleiddiwr Pensiynau cyn cymryd camau cyfreithiol. Gall oedi wrth riportio waethygu neu gynyddu risg y tramgwydd.

Nid oes angen riportio'r holl dramgwyddau a nodwyd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, ond mae'n rhaid cofnodi pob un yn y cofnod tramgwyddau.

Rhaid cyfeirio pob tramgwydd at Swyddog Adran 151 Cyngor Sir Caerfyrddin cyn ei riportio i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Arwyddocâd sylweddol

Rhaid riportio tramgwyddau sy'n debygol o fod o arwyddocâd sylweddol. Mae'r hyn sy'n golygu bod y tramgwydd o arwyddocâd sylweddol yn dibynnu ar y canlynol:

- Achos y tramgwydd
- Effaith y tramgwydd
- Yr ymateb i'r tramgwydd
- Goblygiadau ehangach y tramgwydd

Wrth wneud penderfyniad ynghylch a ddylid riportio tramgwydd, dylai'r sawl sy'n riportio ystyried y pwyntiau hyn gyda'i gilydd. Mae pob un o'r elfennau hyn yn cael eu hystyried yn fanylach isod.

Achos y tramgwydd

Lle cafodd y tramgwydd ei achosi gan:

- anonestrwydd
- llywodraethu neu weinyddu gwael
- arferion araf neu amhriodol o ran gwneud penderfyniadau
- cyngor anghyflawn neu anghywir
- gweithredu (neu fethu â gweithredu) yn groes i'r gyfraith yn fwriadol.

Wrth benderfynu a yw tramgwydd o arwyddocâd sylweddol, dylai'r rhai sy'n gyfrifol ystyried tramgwyddau eraill y maent yn ymwybodol ohonynt, sydd wedi'u riportio neu heb eu riportio. Fodd bynnag, dylid ystyried gwybodaeth hanesyddol yn ofalus, yn enwedig os oes newidiadau wedi'u gwneud i fynd i'r afael â phroblemau a nodwyd yn flaenorol.

Fel arfer, nid ystyrir bod tramgwydd o arwyddocâd sylweddol os yw wedi deillio o ddigwyddiad unigol, er enghraifft, o ganlyniad i broblemau o ran system neu weithdrefn newydd, neu gyfuniad anarferol neu anrhagweladwy o amgylchiadau. Ond mewn sefyllfa o'r fath, mae hefyd yn bwysig ystyried agweddau eraill ar y tramgwydd, fel yr effaith y mae wedi'i chael, a bod yn ymwybodol y gallai tramgwyddau unigol parhaus fod yn arwydd o broblemau ehangach o ran y cynllun.

Effaith y tramgwydd

Mae angen i'r sawl sy'n riportio ystyried effeithiau unrhyw dramgwydd, ond gan gofio rôl y Rheoleiddiwr mewn perthynas â chynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus a'i amcanion statudol, dylid ystyried bod y materion canlynol yn benodol yn debygol o fod o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr:

- aelodau'r Bwrdd Pensiwn nad oes ganddynt y lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth, a allai olygu nad yw'r Bwrdd Pensiwn yn cyflawni ei rôl, nad yw'r

gronfa yn cael ei llywodraethu a'i gweinyddu'n briodol a/neu fod rheolwyr y cynllun yn torri gofynion cyfreithiol eraill
- aelodau'r Bwrdd Pensiwn â buddiannau sy'n gwrthdaro â'i gilydd, a allai olygu eu bod yn rhagfarnllyd o ran y ffordd y maent yn cyflawni eu rôl
- nid oes rheolaethau mewnol digonol yn cael eu sefydlu a'u gweithredu, a allai olygu nad yw'r gronfa yn cael ei chynnal yn unol â rheoliadau'r cynllun a gofynion cyfreithiol eraill, nad yw risgiau yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol a/neu nad yw'r arian cywir yn cael ei dalu i'r gronfa neu gan y gronfa ar yr adeg gywir
- nid oes gwybodaeth gywir am fuddion a gweinyddu'r cynllun yn cael ei rhoi i aelodau'r cynllun ac eraill, a allai olygu nad yw aelodau yn gallu cynllunio neu wneud penderfyniadau ynghylch eu hymddeoliad yn effeithiol
- nid oes cofnodion priodol yn cael eu cadw, a allai olygu bod buddion aelodau yn cael eu cyfrifo'n anghywir a/neu nad ydynt yn cael eu talu i'r person cywir ar yr adeg gywir
- bod unrhyw un sy'n ymwneud â gweinyddu neu reoli'r gronfa yn camddefnyddio unrhyw rai o'i hasedau, neu'n debygol o wneud hynny, a allai olygu nad yw asedau yn cael eu diogelu, ac
- unrhyw dramgwydd arall a allai olygu bod y gronfa yn cael ei llywodraethu, ei rheoli neu ei gweinyddu'n wael.

Mae angen i'r sawl sy'n riportio gymryd gofal i ystyried effeithiau'r tramgwydd, gan gynnwys unrhyw dramgwyddau eraill sy'n digwydd o ganlyniad i'r tramgwydd cyntaf ac effeithiau'r tramgwyddau sy'n deillio o hynny.

Yr ymateb i'r tramgwydd

Pan gymerir camau prydlon ac effeithiol i ymchwilio a chywiro'r tramgwydd a'i achosion ac, lle bo hynny'n briodol, hysbysu unrhyw aelodau yr effeithir arnynt, ni fydd y Rheoleiddiwr fel arfer yn ystyried bod hyn o arwyddocâd sylweddol.

Mae tramgwydd yn debygol o fod o bryder ac arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr lle mae tramgwydd wedi'i nodi ac:

- nad yw'r rheiny dan sylw yn cymryd camau prydlon ac effeithiol i gywiro'r tramgwydd a nodi a mynd i'r afael â'i achos er mwyn lleihau'r risg y bydd yn digwydd eto
- nad ydynt yn cymryd camau cywiro i sicrhau canlyniad priodol, neu
- nad ydynt wedi hysbysu aelodau'r cynllun yr effeithir arnynt pan fyddai wedi bod yn briodol gwneud hynny.

Goblygiadau ehangach y tramgwydd

Dylai'r sawl sy'n riportio ystyried goblygiadau ehangach tramgwydd pan fyddant yn asesu pa achosion sy'n debygol o fod o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr. Er enghraifft, mae tramgwydd yn debygol o fod o arwyddocâd sylweddol lle mae'r ffaith bod y tramgwydd wedi digwydd yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd tramgwyddau eraill yn codi yn y dyfodol. Gall hyn fod oherwydd nad oes gan reolwr y cynllun neu aelodau'r Bwrdd Pensiwn ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau, neu lle gellir effeithio ar

gynlluniau pensiwn eraill. Er enghraifft, gall cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus a weinyddir gan yr un sefydliad gael eu heffeithio'n andwyol pan mae methiant systemau wedi achosi'r tramgwydd.

Y broses riportio

Mae cofnod tramgwyddau yn cael ei gynnal gan y Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn ar gyfer yr holl dramgwyddau perthnasol ac amherthnasol.

Bydd yr holl dramgwyddau perthnasol ac amherthnasol yn cael eu cofnodi ar y cofnod tramgwyddau, gan y gallai cofnod o dramgwyddau yn y gorffennol fod yn berthnasol wrth benderfynu a ddylid riportio tramgwyddau yn y dyfodol.

Mae'r cofnod hwn yn cael ei adolygu bob chwarter yn barhaus i bennu unrhyw dueddiadau a allai ddangos unrhyw fethiannau difrifol neu ymddygiad twyllodrus.

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr amserlen a'r camau gweithredu sydd eu hangen ar gyfer riportio gwahanol gategorïau o dramgwyddau:-

Math o dramgwydd	**I'w riportio i'r Rheoleiddiwr Pensiynau**	**Amserlen ar gyfer Riportio**	**Camau Gweithredu Mewnol**
Ar frys a pherthnasol	Ydy	Ar unwaith	Cyfeirio at y Swyddog Adran 151. Diweddaru'r cofnod tramgwyddau ac ymchwilio i'r opsiynau i'w atal rhag digwydd eto. Llunio adroddiad llawn a'i gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Pensiwn.
Heb fod ar frys a pherthnasol	Ydy	Cyn pen 30 diwrnod	Cyfeirio at y Swyddog Adran 151. Diweddaru'r cofnod tramgwyddau ac ymchwilio i'r opsiynau i'w atal rhag digwydd eto.
Amherthnasol	Nac ydy	Amh.	Diweddaru'r cofnod tramgwyddau ac ymchwilio i'r opsiynau i'w atal rhag digwydd eto.

Enghreifftiau o dramgwyddau posibl o dan bob categori:

Ar frys a pherthnasol

- Twyll
- Anonestrwydd

Heb fod ar frys a pherthnasol

- Talu cyfraniadau cyflogwr yn hwyr dro ar ôl tro
- Datganiadau buddion blynyddol heb eu hanfon allan ar amser
- Sawl gwall cyfrifo â gwerth cyfunol sylweddol
- Hysbysiadau hwyr ynghylch symiau buddion ymddeol a thalu symiau arian di-dreth

Amherthnasol

- Talu cyfraniadau cyflogwr yn hwyr unwaith yn unig
- Methiant i wneud ad-daliadau o fewn yr amserlen
- Buddsoddiadau y tu allan i'r terfynau statudol
- Gwallau cyfrifo unwaith yn unig

Cyfraniadau cyflogwr - Rhaid riportio unrhyw fethiant gan gyflogwyr y cynllun i drosglwyddo cyfraniadau gweithiwr a/neu gyflogwr, yr ystyrir ei fod o arwyddocâd sylweddol, i'r Rheoleiddiwr Pensiynau ar unwaith.

Er mwyn penderfynu a yw methiant i dalu cyfraniadau gweithiwr a/neu gyflogwr o arwyddocâd sylweddol, rhaid cael y wybodaeth ganlynol gan y cyflogwr:

- achos ac amgylchiadau'r methiant i dalu
- pa gamau y mae'r cyflogwr wedi'u cymryd o ganlyniad i'r methiant i dalu, a
- goblygiadau neu effaith ehangach y methiant i dalu.

Os cytunir ar gynllun talu gyda'r cyflogwr i adennill y cyfraniadau sy'n ddyledus a'i fod yn cadw ato, neu os oes amgylchiadau lle ceir taliadau hwyr unwaith yn unig yn anaml, neu fethiannau gweinyddol, nid ystyrir bod y taliad hwyr o arwyddocâd sylweddol.

Ystyrir bod pob achos sy'n deillio o amharodrwydd neu anallu'r cyflogwr i dalu'r cyfraniadau gweithiwr a/neu gyflogwr, anonestrwydd, ymddygiad twyllodrus neu gamddefnyddio cyfraniadau gweithiwr a/neu gyflogwr, gweithdrefnau gweinyddol gwael neu fethu â thalu cyfraniadau gweithiwr a/neu gyflogwr o fewn 90 diwrnod i'r dyddiad dyledus o arwyddocâd sylweddol, a bydd yn cael ei riportio i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Os penderfynwyd bod achos rhesymol dros gredu y cafwyd tramgwydd, a'i fod o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, rhaid ei riportio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae'n bwysig bod gweithdrefnau ar waith i ganiatáu i'r sawl sy'n riportio wneud penderfyniad o fewn amserlen briodol ynghylch a oes rhaid riportio tramgwydd.

Mae'r hyn sy'n rhesymol ymarferol yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mewn unrhyw achos, dylai'r amser a gymerir i wneud y penderfyniadau ynghylch achos rhesymol dros gredu ac arwyddocâd sylweddol fod yn gyson â'r cyflymder a awgrymir gan 'cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol'. Yn benodol, dylai'r amser a gymerir adlewyrchu difrifoldeb y tramgwydd a amheuir. Mewn achosion lle mae risg uniongyrchol i asedau'r cynllun, talu buddion aelodau, neu lle mae unrhyw arwydd o anonestrwydd, nid yw'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn disgwyl i'r sawl sy'n riportio geisio esboniad neu asesu effeithiolrwydd y camau cywiro arfaethedig, dim ond gwneud y fath wiriadau angenrheidiol ar unwaith. Po fwyaf difrifol yw'r tramgwydd posibl

a'i ganlyniadau, mwyaf cyflym y dylid gwneud y gwiriadau angenrheidiol hyn. Mewn achosion o anonestrwydd posibl, lle bo hynny'n bosibl, dylai'r sawl sy'n riportio osgoi gwiriadau a allai rybuddio'r rhai sy'n gysylltiedig â'r tramgwydd. Mewn achosion difrifol, dylai'r sawl sy'n riportio ystyried cysylltu â'r Rheoleiddiwr Pensiynau drwy'r dull cyflymaf posibl i rybuddio'r Rheoleiddiwr am y tramgwydd.

Adrodd i'r Pwyllgor Pensiwn a'r Bwrdd Pensiwn

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pensiwn a'r Bwrdd Pensiwn ym mhob cyfarfod, gan nodi:

- pob tramgwydd, gan gynnwys y rhai a gafodd eu riportio i'r Rheoleiddiwr Pensiynau a'r rhai na chawsant eu riportio, gyda'r dyddiadau cysylltiedig
- mewn perthynas â phob tramgwydd, manylion ynghylch pa gamau a gymerwyd a chanlyniad unrhyw gamau (lle nad yw hyn yn gyfrinachol)
- unrhyw gamau yn y dyfodol er mwyn atal y tramgwydd dan sylw rhag digwydd eto
- tramgwyddau newydd sydd wedi codi ers y cyfarfod blaenorol

Cyflwyno adroddiadau

Rhaid cyflwyno adroddiadau yn ysgrifenedig a gellir eu hanfon drwy'r post neu'n electronig. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai'r sawl sy'n riportio ddefnyddio'r fformat safonol sydd ar gael drwy'r gwasanaeth ar-lein Exchange ar wefan y Rheoleiddiwr.

Dylai'r adroddiad fod wedi'i ddyddio a chynnwys o leiaf:

- enw llawn y gronfa
- disgrifiad o'r tramgwydd neu'r tramgwyddau
- unrhyw ddyddiadau perthnasol
- enw'r cyflogwr neu reolwr y cynllun (lle mae'n hysbys)
- enw, swydd a manylion cyswllt y sawl sy'n riportio, a
- rôl y sawl sy'n riportio mewn perthynas â'r gronfa

Mae gwybodaeth ychwanegol a fyddai'n cynorthwyo'r Rheoleiddiwr yn cynnwys:

- y rheswm y credir bod y tramgwydd o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr
- cyfeiriad y gronfa
- rhif cofrestru'r cynllun pensiwn, ac
- a yw'r pryder wedi'i riportio o'r blaen.

Dylai'r sawl sy'n riportio nodi adroddiadau brys fel y cyfryw a thynnu sylw at faterion y mae'n eu hystyried yn arbennig o ddifrifol. Gall gynnal galwad ffôn cyn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig, os yw'n briodol.

Dylai'r sawl sy'n riportio sicrhau ei fod yn derbyn cydnabyddiaeth am unrhyw adroddiad y mae'n ei anfon at y Rheoleiddiwr. Dim ond pan fydd yn derbyn cydnabyddiaeth y gall y sawl sy'n riportio fod yn hyderus bod y Rheoleiddiwr wedi derbyn ei adroddiad.

Bydd y Rheoleiddiwr yn cydnabod pob adroddiad o fewn pum diwrnod gwaith i'w dderbyn, ond ni fydd yn gyffredinol yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n riportio am y camau a gymerwyd mewn ymateb i adroddiad am dramgwydd gan fod cyfyngiadau ar y wybodaeth y gall ei datgelu.

Dylai'r sawl sy'n riportio ddarparu rhagor o wybodaeth neu adroddiadau am dramgwyddau pellach os gallai hynny helpu'r Rheoleiddiwr i arfer ei swyddogaethau. Gall y Rheoleiddiwr gysylltu ag ef i ofyn am ragor o wybodaeth.

Dylai tramgwyddau gael eu riportio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a fydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Yn benodol, dylai'r amser a gymerir adlewyrchu difrifoldeb y tramgwydd a amheuir.

Mewn achosion lle mae risg uniongyrchol i'r gronfa, er enghraifft, lle mae unrhyw arwydd o anonestrwydd, nid yw'r Rheoleiddiwr yn disgwyl i'r sawl sy'n riportio geisio esboniad neu asesu effeithiolrwydd y camau cywiro arfaethedig. Dylai ond wneud y fath wiriadau angenrheidiol ar unwaith. Po fwyaf difrifol yw'r tramgwydd posibl a'i ganlyniadau, mwyaf cyflym y dylai'r sawl sy'n riportio wneud y gwiriadau angenrheidiol hyn. Mewn achosion o anonestrwydd posibl, lle bo hynny'n bosibl, dylai'r sawl sy'n riportio osgoi gwiriadau a allai rybuddio'r rhai sy'n gysylltiedig â'r tramgwydd. Mewn achosion difrifol, dylai'r sawl sy'n riportio ddefnyddio'r dull cyflymaf posibl i rybuddio'r Rheoleiddiwr am y tramgwydd.

Methu â riportio

Mae methu â chydymffurfio â'r rhwymedigaeth a osodir gan y gofyniad i riportio tramgwyddau heb 'esgus rhesymol' yn drosedd sifil. I benderfynu a oes gan y sawl sy'n riportio esgus rhesymol dros beidio â riportio yn ôl yr angen, neu dros riportio tramgwydd yn hwyrach nag y byddai'r Rheoleiddiwr wedi ei ddisgwyl, bydd y Rheoleiddiwr yn ystyried y canlynol:

- y ddeddfwriaeth, y gyfraith achosion, y côd ymarfer hwn ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau
- rôl y sawl sy'n riportio mewn perthynas â'r cynllun
- yr hyfforddiant a roddwyd i'r unigolyn neu'r staff, a lefel y wybodaeth y byddai'n rhesymol disgwyl i'r unigolyn hwnnw neu'r aelodau staff hynny feddu arni
- y gweithdrefnau a roddwyd ar waith i nodi a gwerthuso tramgwyddau ac a ddilynwyd y gweithdrefnau hyn
- difrifoldeb y tramgwydd ac felly pa mor bwysig oedd ei riportio i'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn ddi-oed
- unrhyw resymau dros yr oedi cyn riportio
- unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r achos dan sylw

Os yw'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn ystyried rhoi cosb sifil, neu'n arfer un o'i swyddogaethau, bydd y partïon yr effeithir arnynt yn uniongyrchol yn derbyn hysbysiad rhybuddio sy'n nodi'r tramgwydd honedig a'r swyddogaeth berthnasol. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yng nghanllawiau'r Rheoleiddiwr ar y gweithdrefnau penderfynu.
Hefyd, gall y Rheoleiddiwr Pensiynau, pan mae'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny, wneud cwyn i gorff proffesiynol neu gorff llywodraethu arall y sawl sy'n riportio.

Diogelu'r rheiny sy'n datgelu camarfer a chyfrinachedd

Mae Deddf Pensiynau 2004 yn ei gwneud yn eglur bod y ddyletswydd statudol i riportio yn drech nag unrhyw ddyletswyddau eraill a allai fod gan y sawl sy'n riportio, fel cyfrinachedd, ac nad yw unrhyw ddyletswydd o'r fath yn cael ei thorri drwy riportio. Mae'r Rheoleiddiwr yn deall effaith bosibl riportio ar berthnasoedd, er enghraifft, rhwng gweithiwr a'i gyflogwr.

Nid yw'r ddyletswydd statudol i riportio, fodd bynnag, yn drech na 'braint gyfreithiol'. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid datgelu cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhwng ymgynghorydd cyfreithiol proffesiynol a'i gleient, neu berson sy'n cynrychioli'r cleient hwnnw, wrth gael cyngor cyfreithiol. Lle bo hynny'n briodol, bydd ymgynghorydd cyfreithiol yn gallu darparu rhagor o wybodaeth am hyn.

Bydd y Rheoleiddiwr yn gwneud ei orau i ddiogelu hunaniaeth y sawl sy'n riportio (os dymunir hynny) ac ni fydd yn datgelu'r wybodaeth ac eithrio lle mae'n ofynnol gwneud hynny o dan y gyfraith. Bydd yn cymryd pob cam rhesymol i gynnal cyfrinachedd, ond ni all roi unrhyw sicrwydd pendant oherwydd gall yr amgylchiadau olygu bod datgelu hunaniaeth y sawl sy'n riportio yn anochel o dan y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau lle mae llys yn gorchymyn i'r Rheoleiddiwr ei datgelu.

Adolygu'r Polisi Tramgwyddau

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol a'i ddiweddaru'n ffurfiol o leiaf bob tair blynedd. Disgwylir i'r adolygiad nesaf gael ei gwblhau yn 2028 oni bai bod materion yn codi sy'n gofyn i'r polisi gael ei adolygu'n gynharach.

Gwybodaeth gyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am ein Polisi Tramgwyddau, neu os oes ganddynt ymholiadau, anogir aelodau i gysylltu â ni drwy:

E-bost	pensiynau@sirgar.gov.uk
Ffôn	01267 224 893
Post	Cyngor Sir Caerfyrddin Neuadd y Sir Caerfyrddin SA31 1JP